OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2021 Rhif 699 (Cy. 174)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 25A (Grove Park) i Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau sy'n pwyso mwy na 44 o Dunelli Dros Dro) 2021

Gwnaed	*27 Mai 2021*
Yn dod i rym	*29 Mai 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Draffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd a'r gweithlu.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 25A (Grove Park) i Gyffordd 28 (Parc Tredegar), Casnewydd) (Gwahardd Cerbydau sy'n pwyso mwy na 44 o Dunelli Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Mai 2021.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaharddiad" ("*prohibition period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 ar 29 Mai 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaharddiad, yrru unrhyw gerbyd y mae ei bwysau yn fwy na 44 o dunelli, ar y darnau o'r draffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

4. Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny a ddangosir gan arwyddion traffig.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth weithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Mai 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Gwahardd Dros Dro bob Cerbyd sy'n pwyso mwy na 44 o Dunelli

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain traffordd yr M4 sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 28 hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 27 (Highcross), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 28.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin traffordd yr M4 sy'n ymestyn o drwyniad ffisegol y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 25A hyd at drwyniad ffisegol y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 28.

3. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cyffordd 26 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin.

4. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cyffordd 27 hyd at ei chyffordd â'r brif gerbytffordd tua'r gorllewin.